# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU        LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) Cymru 2002

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn caniatáu i awdurdodau lleol weithredu 'trefniadau amgen' yn hytrach na gweithredaeth. Mae'r ffurf y mae trefniadau o'r fath i'w cymerydd yn cael ei nodi yn heoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001.

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau 2001 i wneud newidiadau mân i ffurf ofynnol y 'trefniadau amgen' ac i ychwanegu at y rhestr o swyddogaethau sydd wedi eu heithrio o'r Bwrdd.

**Rheol Sefydlog 11.5**
Gan eu bod wedi cael golwg cynnar ar y rheoliadau mae'r cynghorwyr cyfreithiol wedi cael cyfle i nodi nifer o bwyntiau sydd bellach wedi eu cymeryd i ystyriaeth. Serch hynny, mae ychwanegiadau drafft wedi serch hynny, achosi drafftio diffygiol er bod y rhain i'w hystyried yn addas ar gyfer cael eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

Gan hynny, os na fydd Memorandwm Cywiriadau yn cael ei osod, fe wahoddir y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r pwyntiau drafftio canlynol.

**Rheoliad 4(2)**
Cyfeiria paragraff (g) sydd wedi ei fewnosod at 'â Rheoliadau 2001'. Mae hyn yn esgeuluso'r pwynt bod hwn yn cael ei fewnosod yn Reoliad 2001. Dylai y geiriad hyn ddarllen 'â'r Rheoliadau yma' .

**Rheoliad 5**
Ystyrir y byddai hwn yn fwy addas fel mewnosodiad testun i Reoliadau 2001. Serch hynny os oes yna reswm arbennig dros beidio â gwneud hyn, dylid mynegi'r ffaithmai cyfeiriad at Reoliad 4(2)(g) yn rheoliadau 2001 yw hyn.

**Rheoliad 2**
Os fel yr awgrymir uchod, y mewnosodir y ddarpariaeth yn rheoliad 5 o Reoliadau 2001 fel diwygiad i'r testun, mi fydd rheoliad 2 yn ddiangen ac yn amrhiodol gan fod ei swyddogaeth yn cael ei chyflawni gan reoliad 4(3) o Reoliadau 2001.

**Sylwadau Cyffredinol**
**Nodyn Esboniadol**
Mi allai paragraff olaf y Nodyn Esboniadol fod yn fwy clir.

Mi fuasai'r ail frawddeg yn fwy clir fel a ganlyn –

- 'Ychwanegir geiriau at baragraff 14 er mwyn …'.

Pe gychwynnwyd y drydedd a'r bedwaredd frawddeg gan eiriau cyflwyno a rhestr fer o'r tair eitem sydd i'w hychwanegi at swyddogaethau a eithrir mi fuasai yn fwy clir.

**Rheoliad 4(2) – paragraff (f) newydd**
Mae angen cywiro'r cysod yn y testun Saesneg.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

12 Mawrth 2002